



CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Chwefror 2020 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd R. Bevan	Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd J Bonetto	Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd J Brencher	Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd A. Crimmings
Y Cynghorydd J Cullwick	Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd J Davies	Y Cynghorydd L De Vet
Y Cynghorydd M Diamond	Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd J Elliott	Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd M Forey	Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd H Fychan	Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd E Griffiths	Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd J Harries	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd G Hughes	Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd P Jarman	Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd L Jones	Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R. Lewis	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C. Leyshon	Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd K Morgan	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M. Norris	Y Cynghorydd D Owen-Jones
Y Cynghorydd S Pickering	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S Powell	Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd A Roberts	Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey	Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd M Tegg	Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M Weaver	Y Cynghorydd M. Webber
Y Cynghorydd E Webster	Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd C Williams
Y Cynghorydd R Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

Eraill oedd yn bresennol

Yr Athro Marcus Longley – Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
Dr Sharon Hopkins – Prif Weithredwr Dros Dro'r Bwrdd Iechyd
Dr Greg Dix – Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion
Dr Nick Lyons – Cyfarwyddwr Meddygol

113 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones, S. M. Evans, M. Fidler Jones, D. Grehan, G. E. Hopkins, K. L. Jones, W. Owen, S. Rees-Owen, R. K. Turner, G. D. G. Williams a D. H. Williams .

114 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Mewn perthynas ag Eitem 7 – Datganiad Polisi Tâl y Cyngor:

Swyddogion y Cyngor

- Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr: “Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem.”
- Mr A. Wilkins – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol: “Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem.”
- Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu: “Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem.”
- Mr R. Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol: “Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem.”
- Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant: “Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael

unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."

· Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."

· Mr B. Davies – Cyfarwyddwr Cyllid: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Mae'n nodi'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â pholisïau tâl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn unig. Byddaf, felly, yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."

Mewn perthynas ag Eitem 4 a 12 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg/Rhybuddion o Gynnig Brys:

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto – "Rwy'n Aelod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey - "Rwy'n gyn-gynrychiolydd yr Aelodau Etholedig ar y Bwrdd Iechyd".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman - "Rwy'n gyn-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams - "Roedd fy ngwraig arfer gweithio i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n derbyn pensiwn GIG".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan – "Mae fy merch yn gweithio ar brosiect ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – "Mae fy mab yn Feddyg ac mae wedi gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – "Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings – "Mae aelod o'm teulu'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. R. Davies – "Rwyf wedi gweithio i Fwrdd Iechyd Cwm Taf yn y gorffennol, ac rwy'n parhau i fod wedi fy nghofrestru'n Nyrs Banc".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies – "Roeddwn i'n gyfarwyddwr ar gwmni oedd â chytundeb gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Elliot – "Mae aelod o'm teulu'n gweithio i

Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – "Rwy'n gweithio i'r GIG".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries – "Mae aelodau o'm teulu yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis – "Mae aelod o'm teulu yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan – "Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â Gwasanaethau Mamolaeth ac yn fy rôl yn Arweinydd y Cyngor".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans – "Mae fy merch yn gweithio fel nyrs yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan – "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Norris – "Mae aelodau o'm teulu'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Tegg – "Fi yw Cadeirydd Clwb Lindsay Legg".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Weaver – "Rwyf wedi gweithio i Fwrdd Iechyd Cwm Taf yn y gorffennol".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo – "Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl".

Swyddogion y Cyngor

Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant – "Rwy'n aelod cysylltiol o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol".

Mewn perthynas ag Eitem 10 - Rhybudd o Gynnig (Cyngor ar Bopeth RhCT):

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher – "Mae fy mab yn Gyfarwyddwr gwirfoddol Cyngor ar Bopeth RhCT".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens – "Rwy'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweithredu Credyd Cynhwysol, ac rwy'n gweithio mewn lleoliad sy'n cynnal sesiynau Cyngor ar Bopeth".

115 Cyhoeddiadau

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Chapman fod Treorci wedi ennill y wobr ar gyfer y Stryd Fawr Orau, nid yn unig yng Nghymru, ond yn y DU, yn ddiweddar. Dywedodd fod hyn o ganlyniad i waith caled masnachwyr a pherchnogion busnesau ddoe a heddiw, a chymorth y gymuned. Ychwanegodd fod ei busnes hi ei hun yn dathlu 20 mlynedd ar

Stryd Fawr Treorci eleni. Ar hyn o bryd, mae gan Dreorci (sy'n cael ei gydnabod yn Anheddiad Allweddol) nifer isel o eiddo gwag ac ystod eang o siopau a busnesau. Yng Nghynllun Datblygu Lleol RhCT, mae Aneddiadau Allweddol yn cael eu hystyried yn fannau sy'n 'llai pwysig o safbwynt strategol na'r Prif Drefi' ac ers blynyddoedd, mae ymgyrch wedi bod yn mynd yn ei blaen i sicrhau o leiaf un Prif Dref i Gwm Rhondda, er mwyn i'r cwm elwa o hynny. Mae yna ymgyrch genedlaethol i achub ein strydoedd mawr, ac mae Treorci'n cael ei hystyried yn ardal sy'n mynd yn groes i'r duedd, gan ei bod hi'n dref brysur a blaengar. Am y rhesymau hyn, gofynnodd y Cynghorydd Chapman fod Treorci'n cael ei hystyried ar gyfer ei dyrchafu'n Brif Dref pan gaiff y CDLI ei adolygu.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Jones y byddai Jayne Ludlow, Rheolwr Tîm Pêl-droed Cenedlaethol Menywod Cymru a chynchwaraewr yn derbyn MBE ar 14 Chwefror 2020. Gofynnodd y Cynghorydd Jones i'r Cyngor gydnabod ei chyflawniad yn dilyn y seremoni.
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser fod Christian Roach, trigolyn o Drealaw (sy'n hysbys iddi hi a'r Cynghorydd Gareth Hughes) wedi derbyn diagnosis o gancr y ceilliau yn 2018. Mae wedi cael llawdriniaeth a chemotherapi, ac er bod ei iechyd yn adfer, bydd yn parhau i gael profion am 4 blynedd. Yn amlwg, roedd y diagnosis wedi cael effaith ysgubol arno, ond roedd eisiau rhannu ei hanes er mwyn annog dynion eraill i roi sylw i bob agwedd ar eu hiechyd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth, aeth ati i rannu'u neges ar y cyfryngau cymdeithasol, a defnyddiodd ffyrdd arloesol eraill hefyd. Roedd hyn yn cynnwys creu slogan gan ddefnyddio goleuadau Nadolig ar flaen ei dŷ. Adroddwyd am hyn yn y wasg genedlaethol, ac o ganlyniad bu pobl yn ei ffonio i ofyn am ei gyngor, ac yn fwyaf pwysig, rydyn ni wedi clywed gan staff meddygol bod nifer y dynion o Gwm Rhondda sy'n mynd at eu meddyg wedi cynyddu o ganlyniad. Roedd Mr Roach yn ddewr iawn i siarad yn gyhoeddus am ei gyflwr, ac mae'r ffaith ei fod wedi annog eraill i roi sylw i'w hiechyd yn haeddu clod. Nodwyd y byddai ef a'i deulu yn cael eu gwahodd i Barlwr y Maer er mwyn cydnabod hyn.

116 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 yn gofnodion cywir yn dilyn y newidiadau canlynol:

Cynnwys datgan buddiant personol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards ynglŷn ag Eitem 8 ar yr Agenda - Adroddiadau Blynyddol Deddf yr Eglwys yng Nghymru 2018/19 - "Yn rhinwedd fy swydd, rwy'n cyfeirio/cefnogi grwpiau cymunedol y 3ydd sector i gael gafael ar y cyllid".

Diwygio'r datganiad canlynol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James: "Gofynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James a fyddai'r Cyngor yn anfon gair i longyfarch y Cynghorydd A. Davies-Jones ar gael ei hethol yn AS newydd Pontypridd yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol".

117 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Amlinellodd y Cadeirydd y broses ar gyfer y ddadl i ddod. Nododd fod y cwestiynau wedi'u strwythuro fel y ganlyn:

- Y cynnydd o ran y Gwasanaethau Mamolaeth a'r camau nesaf.
- Y diweddaraf ynglŷn â materion darparu gwasanaethau ehangach a gwelliannau (mae hyn yn cynnwys y pwysau cyffredinol sydd ar y GIG yng Nghymru.)
- Rhoi Rhaglen De Cymru ar waith

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau canlynol o'r Bwrdd Iechyd i'r cyfarfod:

- Yr Athro Marcus Longley – Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
- Dr Sharon Hopkins – Prif Weithredwr Dros Dro'r Bwrdd Iechyd
- Dr Greg Dix – Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion
- Dr Nick Lyons – Cyfarwyddwr Meddygol

Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn ateb cwestiynau'r Aelodau yn y lle cyntaf a fyddai hefyd yn mynd i'r afael â'r prif faterion yn dilyn datganiadau agoriadol yr Arweinydd ac Arweinydd yr Wrthblaid.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan, fod adroddiad cynnydd y gaeaf mwyaf diweddar yn dangos bod Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi gwneud "cynnydd da" yn ystod y misoedd diwethaf wrth fynd i'r afael â methiannau difrifol o ran ei Wasanaethau Mamolaeth, a nododd fod hyn yn beth gadarnhaol. Serch hynny, cwestiynodd sut y gellid disgwyl i'r cyhoedd gredu'r diweddariadau oherwydd roedd y sicrwydd a gafodd ei roi o'r blaen wedi'i brofi'n anghywir. Dywedodd fod lefelau salwch ar draws y Bwrdd yn parhau i fod yn uchel ac mae gorddibyniaeth ar Nyrsys Banc.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan na fyddai'n ymddiheuro am gymryd rhan yn y rhaglen ddiweddar ar y BBC lle nad oedd datganiadau gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r dystiolaeth sydd ar gael. Cwestiynodd a oedd y gwiriadau addas yn eu lle i gadw cydbwysedd a chyfeiriodd at achosion unigol gan ddweud bod un canlyniad gwael yn un yn ormod.

Mynegodd ei siom mewn perthynas â'r ymchwiliad i'r adroddiad mewnol a'i obaith y byddai gan bob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yr hyder i herio a chodi'u llais yn y dyfodol. Nododd fod mater mor bwysig â hyn yn haeddu mwy na 35 munud o drafodaeth fel y cafwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Iechyd.

Roedd Arweinydd y Cyngor o'r farn bod y Gwasanaethau Mamolaeth bellach ar y trywydd iawn, fodd bynnag, dywedodd fod angen sylw o hyd i weithdrefn gwynion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a bod angen cyfleusterau i'r teulu, fel cawodydd, yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Talodd y Cynghorydd Morgan deyrnged i'r teuluoedd a fu'n rhan o ddigwyddiadau'r 9-12 mis diwethaf, i'w dewrder wrth helpu i lunio dyfodol y gwasanaeth a nododd y dylai'r ffocws nawr fod ar wella'r gwasanaeth.

Dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd P. Jarman nad oedd Rhaglen Ddogfen y BBC wedi bod yn hawdd ei gwyllo o ystyried y sefyllfaoedd torcalonnus mae nifer o deuluoedd wedi'u dioddef. Ychwanegodd fod Grŵp Plaid Cymru yn cefnogi'r alwad am Ymchwiliad gan yr Heddlu i weld a oes unrhyw droseddau yn cyfri'n Ddynladdiad Corfforaethol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P. Jarman at bwyntiau 7.62 a 7.64 o'r Adolygiad o

Wasanaethau Mamolaeth yn adroddiad Bwrdd Iechyd Cwm Taf ("*Independent Board members must investigate the lack of action by the Executive Team and Board following receipt of the consultant midwife's report in September 2018*") ac ("*Independent Board members should receive training in the implications of The Corporate Manslaughter and Corporate Homicide Act 2007 to better understand their role in ensuring the safety of the services which the Board provides*"). Ychwanegodd y Cyngorydd Jarman y gallai'r Bwrdd a'r Weithrediaeth, yn rhinwedd eu rolau'n Sefydliadau Corfforaethol, wynebu cyhuddiadau o esgeuluster corfforaethol, a galwodd ar yr awdurdod priodol i ymchwilio i'r mater.

Mynegodd yr Athro M. Longley ei ddiolch i'r Cyngor am ei adborth. Dywedodd fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y Gwasanaethau Mamolaeth a phriodolodd y cynnydd i gyfranogiad y teuluoedd a oedd wedi cael eu heffeithio. Cyfeiriodd yr Athro Longley at adroddiad yr Adolygiad Annibynnol a oedd wedi cynnal ymchwiliad manwl ac wedi llunio ymateb manwl, fesul eitem. Pwysleisiodd fod yr holl argymhellion a chamau gweithredu wedi'u derbyn. Adroddodd fod dadl dda wedi digwydd lle'r oedd pob Aelod Annibynnol o'r Bwrdd wedi cymryd rhan, er mwyn sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu.

Cyfeiriodd yr Athro M. Longley at Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol 2007 a chadarnhaodd fod y Bwrdd wedi cydymffurfio'n llawn ac wedi derbyn yr hyfforddiant priodol. Cadarnhaodd hefyd fod sgysiau gyda'r Heddlu yn parhau, a chyda'r Panel Trosolwg Annibynnol.

Cydnabu Dr Sharon Hopkins, Prif Weithredwr Dros Dro y Bwrdd Iechyd, y broblem o ran salwch a defnyddio Nyrsys Banc a nododd fod yr holl sylwadau wedi'u hystyried a bod dealltwriaeth lawn o'r materion. Ychwanegodd fod gwaith i'w wneud o hyd.

Dywedodd Dr Greg Dix, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion y gall cynnydd mewn salwch fod yn gysylltiedig yn aml â chyfnod o straeon gwael yn y wasg. Cadarnhaodd fod yr holl fesurau diogelwch gofynnol wedi'u gweithredu a fyddai'n rhoi lefel o sicrwydd. Mae proses uwchgyfeirio ar waith i sicrhau diogelwch pob menyw ac mae Dangosfwrdd Ansawdd yn cael ei adolygu bob dydd ac mae Llywodraeth Cymru'n craffu arno'n wythnosol. Mae 2 adroddiad a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ac adroddiadau'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn dilysu'r gwaith.

Adroddodd Dr Greg Dix fod carfan seicoleg wedi'i phenodi i weithio gyda'r 25 menyw gyntaf sy'n mynd trwy'r broses adolygu a rhoi cymorth iddynt. Nododd rai o'r rhesymau dros y swyddi bydwreigiaeth gwag presennol ond nododd fod y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd wedi bod yn ei swydd am 3 wythnos a'i fod yn cynnal sesiynau staff.

Cyhoeddodd y Llywydd y byddai rhan gyntaf y ddadl a'r cwestiynau cysylltiedig yn digwydd nawr a derbyniodd Aelodau'r Bwrdd y cwestiynau canlynol gan yr Aelodau Etholedig yn ymwneud â'r "**cynnydd o ran y Gwasanaethau Mamolaeth a'r camau nesaf**":

Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell

"Pa gamau a gymerwyd i godi'r safon o ran darparu gwasanaeth a diogelu cleifion yn yr uned famolaeth?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher:

"A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud ymdrech benodol i annog menywod i eni eu babanod gartref oherwydd nad oes modd i'r trefniadau mamolaeth newydd ddarparu digon o gapasiti?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber

"Mae 3 o'r 4 uwch swyddog a oedd yn gysylltiedig â'r ymdrech bosibl i 'gelu' adroddiad i'r Bwrdd ar y gwasanaethau mamolaeth bellach wedi gadael eu swyddi ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. A wnewch chi gadarnhau bod y 4ydd unigolyn yn parhau i gael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd a pha gynnydd sydd wedi'i wneud wrth ymchwilio i'r mater yma?"

Dywedodd yr Athro Longley ei bod yn amhriodol gwneud sylwadau ar statws gweithwyr unigol. Ychwanegodd fod y Bwrdd wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2019 bod trafodaethau'r panel ymchwilio yn dal i gael eu gweithredu a byddan nhw'n dod i ben yn fuan.

Cadarnhaodd Dr Greg Dix fod geni babanod gartref yn opsiwn sydd ar gael i bob menyw er nad yw'n cael ei annog oherwydd materion capasiti. Dywedodd fod Bydwraig Ymgynghorol wedi'i recriwtio a bod cefnogaeth ar gael i fenywod sy'n dewis geni gartref.

Cyfeiriodd Dr Greg Dix yr Aelodau at drafodaethau cynharach yn y cyfarfod mewn perthynas â materion o ran darparu gwasanaeth.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai ail ran y ddadl a'r cwestiynau cysylltiedig yn digwydd nawr, a derbyniodd Aelodau'r Bwrdd y cwestiynau canlynol gan yr Aelodau Etholedig mewn perthynas â "**darparu gwasanaethau ehangach a gwelliannau (gan gynnwys y pwysau cyffredinol sydd ar y GIG yng Nghymru)**". Byddai sylwadau'r Arweinydd ac Arweinydd yr Wrthblaid yn dod cyn y ddadl.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar y materion ehangach o ran darparu gwasanaethau ac ar y berthynas waith dda sydd sy'n bodoli o ran iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Cydnabu'r pwysau presennol ar adrannau damweiniau ac achosion brys a'r cynnydd o 10% ledled Cymru mewn cleifion yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n cyfiawnhau'r angen i edrych ar brosesau rhyddhau ac addasiadau gartref.

Soniodd y Cynghorydd Morgan am y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud fel CAMHS, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r cydweithio trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol / y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddweud bod angen ehangu ar y meysydd hyn. Canmolodd y Bwrdd Iechyd am fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y problemau mae'n eu hwynebu. Dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid fod lle i wella.

Talodd yr Athro M. Longley deyrnged hefyd i'r cydweithio agos ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a chyfeiriodd at yr arian ychwanegol i'w wario gan y ddau sector mewn meysydd lle mae ei angen.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey

"Pa newidiadau sydd yn eu lle i wella trefniadau llywodraethu mewnol y Bwrdd

lechyd?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. A. Bradwick

"Beth ydych chi'n ei wneud a beth rydych chi wedi'i roi yn ei le i ddatrys cwynion gan gleifion er mwyn gwneud pethau'n haws i ni? O'm profiad i o lygad y ffynnon, mae'r adran gwynion yn warthus, ac mae rhaid i gleifion fynd ar drywydd y gŵyn, fel yr oedd rhaid i mi ei wneud, ac yna nid yw'r ymateb sy'n cael ei ddarparu yn ddigon da o gwbl."

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens

"Ar ôl siarad â phreswlydd yn y Gelli yn ddiweddar, roeddwn i wedi fy synnu i glywed nad yw pobl yn derbyn ymateb i'w cwynion o fewn y cyfnod amser dynodedig. Beth sy'n cael ei roi ar waith i fonitro hyn, a beth yw'r camau nesaf os yw'r broses bresennol yn methu?"

Dywedodd Dr Sharon Hopkins, Prif Weithredwr Dros Dro y Bwrdd Iechyd, fod yna raglen waith gyfan yn ei lle i adolygu'r materion llywodraethu corfforaethol gan roi sylw arbennig i sut mae'r 'broses risg' yn cael ei datblygu. Cadarnhawyd bod model gweithredu newydd i gryfhau ac adolygu'r broses llywodraethu clinigol, sy'n rhoi cleifion a chyfathrebu wrth galon popeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud. Mae ymdrechion i wella ymgysylltiad yn mynd yn eu blaenau fel yr arolwg staff gwaith gweithredol, gyda 5,000 aelod o staff yn cymryd rhan

Esboniodd Dr Greg Dix eu bod ar hyn o bryd yn gweithio gyda thri theulu i ddatblygu proses gwyno effeithiol. Dywedodd hefyd fod carfan benodol bellach yn y Gwasanaethau Mamolaeth (bydwraig arweiniol, Rheolwr a Gweinyddwr) sydd eisoes wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cwynion dros ben. Ailwampwyd y weithdrefn llywodraethu a chwynion mewnol (mae gostyngiad wedi bod yn y cyfnod aros 30 diwrnod ac mae gwiriad sicrhau ansawdd ychwanegol yn ei le). Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y cyfraddau cydymffurfio, o 45% y llynedd i 70% ym mis Rhagfyr 2019 gyda tharged o 90%.

Dywedodd Dr Gred Dix fod y Bwrdd wedi'i feirniadu yn y gorffennol am ddiffyg dysgu, felly, o ganlyniad i hynny mae Cydlynnydd Dysgu newydd yn ei le ac mae unrhyw bryderon bellach yn cael eu rhannu ar draws y Bwrdd. Mae'r gwelliannau wedi arwain at amser ymateb hirach, ond mae'r broses yn sicrhau bod pethau'n iawn.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones

"Beth sy'n digwydd yn yr awdurdod iechyd hwn, sy'n methu â chynnal niferoedd staff, ac sy'n methu â recriwtio digon o staff meddygol cymwys, er mwyn darparu inni lefelau derbyniol o ofal o ansawdd da?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan

"A wnewch chi gadarnhau na fydd unrhyw welyau meddygol aciwt yn cael eu colli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, nawr neu yn y dyfodol?"

Esboniodd Dr Nick Lyons - Cyfarwyddwr Meddygol, mai'r her yw denu staff meddygol, bod yn arloesol a gwneud i'r swyddi apelio at feddygon. Ychwanegodd eu bod wedi gwahodd meddygon i ffonio i drafod cyfleoedd mewn ymchwil ac addysgu a chyfleoedd i weithio ar draws y Bwrdd Iechyd.

Cadarnhaodd Dr Nick Lyons nad oes unrhyw fwriad i leihau nifer y gwelyau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac nad oes unrhyw fwriad i leihau gwelyau meddygol aciwt yn unrhyw un o'r ysbytai.

Cyhoeddodd y Llywydd y byddai trydedd ran y ddadl a chwestiynau cysylltiedig yn digwydd nawr, a derbyniodd Aelodau'r Bwrdd y cwestiynau canlynol gan Aelodau Etholedig mewn perthynas â "**rhoi Rhaglen De Cymru ar waith**".

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Bwrdd am fynychu'r cyfarfod a chydabu'r trafodaethau anodd sydd eu hangen.

Ychwanegodd fod ganddo bryderon mawr ynghylch cau / israddio rhannol y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys a'r effaith ar gymunedau (sy'n bryder trawsbleidiol). Soniodd yr Arweinydd am bwysigrwydd ymgynghori â thrigolion. Cyfeiriodd at yr anawsterau y bydd cymunedau yn eu cael wrth gael mynediad i Ysbyty'r Tywysog Siarl. Er enghraifft, canran isel iawn o boblogaeth y Maerdy sy'n berchen ar gar ac er mwyn cyrraedd yr ysbyty gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus mae rhaid mynd ar sawl bus gwahanol a newid yn aml. Mae'r Cyngor hefyd yn cau ei ffyrdd mynyddig ar adegau o dywydd garw ac oherwydd ei ddyletswydd gofal i'w staff, maen nhw'n gallu bod ar gau am wythnosau ar y tro. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans o ganlyniad i'r cynigion a gofynnodd i dopograffi'r Cymoedd gael ei ystyried.

Cydnabu'r Cynghorydd Morgan yr anawsterau wrth recriwtio ond awgrymodd y byddai recriwtio ar draws y Bwrdd lechyd yn lle i ysbytai penodol, ac adolygu hysbysebion swyddi, efallai'n cynnig ffordd o ddatrys y broblem. Esboniodd yr Arweinydd y gallai gwneud yr Unedau Mân Anafiadau'n fwy hygyrch trwy gael gwared ar y system apwyntiadau a gwella darpariaeth Gofal Cynradd, a gofal y tu allan i oriau, leihau'r effaith ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys.

Cytunodd y Cynghorydd Morgan ei bod yn iawn darparu gwasanaeth diogel ond mae angen gwneud rhagor o ran recriwtio.

Dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd P Jarman, ei bod wedi bod yn gred hir sefydlog gan Grŵp Plaid Cymru y dylid cadw adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a dywedodd fod angen i'r Bwrdd edrych ar Raglen De Cymru o'r newydd.

Dywedodd yr Athro M. Longley bod gwir angen edrych ar yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg gan fod y sefyllfa ar hyn o bryd ddim yn ddichonol y tu hwnt i'r tymor byr. Meddai nad yw'r gwasanaeth yn ddiogel nac yn gynaliadwy ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Cyfeiriodd at y prinder cenedlaethol o ymgynghorwyr ym maes meddygaeth frys a'r anhawster wrth recriwtio staff. Cydnabu'r Athro Longley fod gan yr ardal ddaearyddiaeth unigryw y mae angen ei hystyried ac mae cymhwyso 'Prawf Cwm Rhondda' yn hanfodol wrth ystyried mynediad at wasanaethau. Ychwanegodd fod angen ail bennu pwrpas y gwasanaeth y tu allan i oriau, a bod rhaid gweithio tuag at gyflwyno gwasanaeth dan arweiniad ymgynghorydd am 24 awr. Cadarnhaodd yr Athro Longley fod cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal bron yn ddyddiol i wrando ar y cyhoedd ac i wneud y gwasanaeth yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y pen draw.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams

"Pa werthusiadau sydd wedi digwydd hyd yma o effaith Rhaglen De Cymru fel y mae wedi'i gweithredu hyd yn hyn a pha dystiolaeth y mae'r gwerthusiadau hyn yn ei darparu ynglŷn â'r canlyniadau i gleifion?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries

"Er y gall y cynlluniau i israddio gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg edrych yn dda ar fap, mae'r realiti i lawer o'n preswylwyr yn cyferbynnu'n fawr. A allwch ddweud wrthyf pa ystyriaeth sydd wedi'u rhoi i gleifion sy'n gorfod teithio dros fynyddoedd, o bosibl mewn amodau peryglus yn y gaeaf, dim ond i gael mynediad at wasanaethau damweiniau ac achosion brys?"

Yn dilyn ei gwestiwn, nododd y Cynghorydd J Harries ei fod yn teimlo ei fod yn warthus nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi cyfle i Arweinydd y Cyngor annerch cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Iechyd. Heriodd yr Athro Marcus Longley i ymddiswyddo fel Cadeirydd, a nododd ei fod wedi colli hyder ynddo fel Cadeirydd.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies

"Yn nhrefodaethau'r Bwrdd ddydd Iau diwethaf ar ddyfodol yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, dywedodd y swyddog sy'n gyfrifol am yr adrefnu fod dim ystadegau ar gael o ran y nifer neu'r math o achosion sy'n cael eu trin yn yr adran dros nos. Os ydy hyn yn wir, sut y gallwch chi argymhell cau'r adran dros nos?"

Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â gwerthuso effaith Rhaglen De Cymru hyn yn hyn, nododd Dr Sharon Hopkins fod y broses werthuso yn digwydd dan adain y Panel Craffu, adroddiad Arolygiaeth Iechyd Cymru a thrwy werthuso Canolfan Geni Tirion, y ganolfan dan arweiniad bydwragedd, yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Cadarnhaodd nad oedd hi'n gallu rhoi sylwadau ar asesiad effaith Rhaglen De Cymru ond pwysleisiodd bwysigrwydd mynd i'r afael â materion mynediad a thegwch trwy unrhyw fodel sy'n cael ei ddatblygu yn y dyfodol mewn partneriaeth â thrigolion lleol.

Dywedodd Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol fod y Bwrdd yn edrych ar yr effaith ar gleifion unigol a bydd rhai senarios clinigol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad. Ychwanegodd er bod yna gyfoeth o ddata ar gael, mae angen iddo fod yn ddbynadwy ac mae angen dilysu peth o'r data hanesyddol.

Gofynnodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd P Jarman i'r Bwrdd a oedd modd cyflogi'r ymgynghorwyr locwm cyfredol yn barhaol. Cafwyd cadarnhad bod yr ymgynghorwyr wedi cael y cynnig, ond mae'u hymateb yn dibynnu ar ba opsiwn sy'n cael ei weithredu gan y Bwrdd Iechyd, opsiwn un neu opsiwn dau.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths

"Mae Pont-y-clun ar y ffin â Chaerdydd ac mae'n agos at y 10,000 o dai newydd sy'n cael eu hadeiladu yng ngogledd orllewin Sir Caerdydd. Bydd gan y twf sylweddol yn y boblogaeth a ddaw yn sgil y datblygiad hwn oblygiadau sylweddol o ran trafnidiaeth, gyda galw sylweddol uwch ar Gyffordd 34 yr M4 a fydd yn debygol o gael sgil effaith ar fynediad at wasanaethau. Pa ystyriaeth a roddwyd i'r twf yn y boblogaeth a rhagor o ddatblygu o fewn ardal Cwm Taf Morgannwg ac yn rhanbarthau sy'n gyfagos â'r y Bwrdd Iechyd?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Griffiths

"Roedd Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn cydnabod yn 2013 bod prinder doctoriaid ag ymgynghorwyr yn cael effaith negyddol ar ymdrechion i benodi staff. Pe bai'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cyllido hyfforddiant i ddoctoriaid ag ymgynghorwyr meddygol mewn partneriaeth gydag Adran Iechyd Llywodraeth Cymru, byddai gyda ni opsiynau recriwtio iach yn yr ardal. Gallwch chi egluro i ni, a yw'r argyfwng yn Ysbyty Morgannwg Brenhinol yn deillio o esgeuluso gweithgareddau i ddatblygu'r gweithlu, neu oherwydd diffygion ymdrechion recriwtio gan y Bwrdd Iechyd?"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams

"Pa effaith bydd y cynlluniau arfaethedig i israddio/gau adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ei chael ar y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref i drigolion Rhondda Cynon Taf?"

Cytunodd Dr Sharon Hopkins fod twf y boblogaeth yn ystyriaeth newydd a bod angen ei brofi fel gydag unrhyw fodel newydd, a bydd yn gwneud gwasanaethau fel y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref hyd yn oed yn fwy pwysig gan y bydd rhagor o wasanaethau ar gael yn agosach at gymunedau.

Esboniodd Dr Nick Lyons ei bod yn cymryd pedair blynedd ar ddeg i gymhwyso fel ymgynghorydd. Pwysleisiodd fod y broses o uno â Phen-y-bont ar Ogwr wedi agor cyfleoedd i recriwtio yn gyffredinol ac wedi ychwanegu elfen o hyblygrwydd i'r broses recriwtio.

Daeth Arweinydd y Cyngor a'i sylwadau i ben.

Pwysleisiodd fod y Cyngor hwn eisiau i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys llawn gael ei gadw yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac ailadroddodd bwysigrwydd ymgynghori â'r Cyngor wrth i wybodaeth newydd ddod i'r golwg. Dywedodd fod yna lawer o feysydd y mae angen eu hystyried megis recriwtio a chadw ymgynghorwyr, hyfforddiant staff, datblygiadau tai ac amseroedd ambiwlans. Awgrymodd yr Arweinydd y dylid llunio taflen Cwestiynau Cyffredin i gynorthwyo'r rhai y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â nhw.

I gloi, cydnabu'r Arweinydd nad yw Aelodau'r Bwrdd yn gwyro oddi wrth y materion ond pwysleisiodd yr angen am ddadleuon synhwyrol wrth symud ymlaen i sicrhau gwasanaeth diogel a chynaliadwy.

Daeth Arweinydd yr Wrthblaid a'i sylwadau i ben.

Cytunodd y Cynghorydd Jarman ei bod wedi bod yn drafodaeth werth chweil. Tynnodd sylw at y ffaith bod topograffi'r yr ardal a diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn ystod y dydd yn peri pryder. Dywedodd y Cynghorydd Jarman ei bod yn ddyletswydd arnom ni i gyd i ddarparu gwasanaethau diogel gyda gwasanaeth ymgynghorydd parhaol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. I gloi, cydnabu'r Cynghorydd Jarman yr amseroedd anodd sy'n wynebu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ond bydd y buddion tymor hwy er budd y cyhoedd yn ehangach.

Esboniodd yr Athro M Longley fod y Bwrdd yn gweithio tuag at yr un nod, er mwyn cyflawni'r datrysiad gorau. Nododd y materion allweddol i fynd i'r afael â

nhw:

- Ni all yr adran bresennol barhau fel y mae;
- Mae prinder gweithlu critigol;
- Mae'r topograffi lleol yn anarferol.

Pwysleisiodd yr Athro Longley fod y Bwrdd am wneud pethau'n iawn ac y byddai'n 'troi pob carreg' mewn ymdrech i ddod o hyd i ateb trwy rannu gwybodaeth. Cadarnhaodd fod cyfarfodydd cyhoeddus bron bob yn ail ddiwrnod dros yr wythnosau nesaf a fyddai'n darparu cyfleoedd i esbonio'r sefyllfa. Esboniodd nad yw pobl yn haeddu'r problemau presennol, ac yn dilyn casglu gwybodaeth, rhannu data a thrafod y deilliannau modelu ar draws y DU, bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â'r Cyngor a thrigolion lleol trwy'r wefan ac ar daflen Cwestiynau Cyffredin. Atgoffodd yr Athro Longley bawb fod yn rhaid iddo fod yn ymdrech ar y cyd ac y byddai'n well ei gyflawni gyda'n gilydd.

118 Eitem Brys – Rhybuddion o Gynnig

Cyhoeddodd y Llywydd ei fod wedi cytuno i dderbyn dau Rybudd o Gynnig Brys ar yr Agenda, a bod yr Aelodau wedi cael gwybod amdanynt. Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, roedd gofyn i'r Aelodau bleidleisio er mwyn cael cytundeb i drafod y rhybuddion yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD ystyried y ddau Rybudd o Gynnig brys canlynol:

A. "Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: A. Morgan, M. Webber, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De-Vet, J. Edwards, J. Elliott, S.Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Hughes , G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis, a R. Yeo.

Yn dilyn cyfarfod o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yr wythnos hon, lle penderfynwyd adolygu opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, mae'r Cyngor hwn yn cofnodi y dylid cynnal gwasanaethau damweiniau ac achosion brys llawn ac mae'n galw ar y Bwrdd Iechyd i adolygu a gweithredu ymgyrch recriwtio â ffocws, i ddenu'r ymgynghorwyr gofynnol i ranbarth Cwm Taf Morgannwg i weithio ar draws y 3 ysbyty a pheidio â chael eu cyflogi mewn ysbytai unigol, sef y strategaeth aflwyddiannus hyd yma.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i fynnu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn adolygu'r hyn y cytunwyd arno o dan Raglen De Cymru bron i 7 mlynedd yn ôl oherwydd galwadau cynyddol ar ysbytai yn rhan o'r strwythur newydd Cwm Taf Morgannwg, gan ystyried y datblygiadau tai sylweddol a thwf yn y boblogaeth o fewn y ffin weinyddol newydd hon ac yng Ngogledd Caerdydd, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar gapasiti a gallu Ysbyty Morgannwg Brenhinol, Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Siarl i reoli'r galw am wasanaethau ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol. Dylai hefyd ystyried oriau gweithredu cyfyngedig presennol yr Unedau Mân Anafiadau yn Ysbyty Cwm Cynon ac Ysbyty Rhondda ynghyd â'r angen i gynyddu darpariaeth meddygon teulu y tu allan i oriau yn y gymuned i leihau'r

galw sydd eisoes ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys a'r staff sy'n gweithio yno.

Mae gan y Cyngor hwn bryderon difrifol ynghylch yr effaith ar amseroedd aros yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai cyfagos oherwydd diffyg capasiti, pe bai adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Morgannwg Brenhinol yn cael ei chau neu'i hisraddio, a'r pwysau ychwanegol enfawr y bydd hyn yn ei roi ar y gwasanaeth ambiwlans o ran pellter teithio a hefyd amseroedd aros posibl mewn ysbytai oherwydd problemau capasiti.

Gyda gwasanaethau mamolaeth yn ein hardal yn destun "mesurau arbennig" a'r Bwrdd Iechyd ehangach yn dod o dan y cam "ymyrryd," a nawr gyda'r materion pellach yn ymwneud â darpariaeth yr adran damweiniau ac achosion brys, rydyn ni'n ailddatgan pryderon y Cyngor hwn ac yn cofnodi, oni bai bod yr holl opsiynau i gadw gwasanaethau yn cael eu hystyried yn llawn, bydd y Cyngor hwn yn galw am roi Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg mewn mesurau arbennig.

Er ein bod ni'n derbyn nad mater o ariannu yw hwn ond yn hytrach yn fater o recriwtio, dydyn ni ddim o'r farn bod swyddogion gweithredol y Bwrdd Iechyd wedi ymdrechu'n ddigon caled i ddefnyddio'r dulliau 'ysgogi' sydd ar gael iddyn nhw er mwyn denu'r nifer ofynnol o ymgynghorwyr i redeg gwasanaeth diogel. Gofynnwn, felly, i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd Iechyd yn mynegi'r safbwyntiau hyn ac i gofnodi safbwynt y Cyngor hwn bod rhaid cadw gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Rydyn ni'n galw ar Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i ddyblu ei ymdrechion i ddenu'r ymgynghorwyr gofynnol i redeg gwasanaethau damweiniau ac achosion brys diogel a chynaliadwy yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Rydyn ni hefyd yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd i fynnu bod rhaid ailedrych ar y dystiolaeth 7 mlynedd yn ôl o dan Raglen De Cymru, sydd bellach wedi dyddio, yn rhan o adolygiad ar unrhyw opsiynau i'w cyflwyno."

B Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Powell, L. Walker, G. Williams, P. Howe ac W. Owen

"Mae'r Cyngor yma'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg dan fesurau arbennig ar unwaith.

Mae gwasanaethau mamolaeth yr ardal eisoes dan fesurau arbennig, ac mae adroddiadau diweddar yn dangos bod gwasanaethau eraill yn ein hysbytai wedi profi'r un effaith o ran prinder staff a dulliau rheoli gwael.

Rydyn ni bellach yn wynebu colli'r unig Uned Ddamweiniau ac Achosion Brys yn Rhondda Cynon Taf, a hynny ar ben y gwasanaethau eraill sydd eisoes wedi dechrau cael eu diddymu.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y caiff anghenion ein cleifion eu diwallu'n ddigonol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl neu Ysbyty Tywysoges Cymru, nag unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod y newidiadau yma'n seiliedig ar waith cynllunio digonol. Does dim sôn am y gwasanaethau cymunedol amgen sydd wedi'u hamlinellu yn Rhaglen De Cymru, a does dim ymdrech wedi bod o ran mynd i'r

afael â phroblemau prinder staff.

Mae angen adolygu holl wasanaethau'r bwrdd iechyd ar unwaith, ac nid yw'r Cyngor yma o'r farn bod modd i'r bwrdd cyfredol sicrhau deilliannau diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion yn yr ardal hon.

Mae'r Cyngor yma'n galw ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ar aelodau cyfredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a rhoi'r gwasanaeth dan fesurau arbennig."

Yn ystod y drafodaeth ar Gynnig Brys **A**, cyhoeddodd Arweinydd y Gynghrair ei fod yn dymuno tynnu'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i amlinellu ym mhwynt **B** yn ei ôl, yn dilyn ymgynghoriad ag aelodau ei grŵp. Yn sgil y penderfyniad hwn, **PENDERFYNWYD** tynnu'r Rhybudd o Gynnig gan y Gynghrair a grybwyllwyd uchod yn ei ôl a thrafod y Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i amlinellu ym mhwynt **A**.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i amlinellu ym mhwynt **A**.

(**Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan yn dymuno cofnodi ei bod hi wedi ymatal rhag pleidleisio.)

119 Rhaglen Waith y Cyngor – er gwybodaeth i Aelodau

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu wybod i'r Aelodau am ddiweddariadau i Raglen Waith y Cyngor ac am yr eitemau o ran y Gyllideb a fyddai'n cael eu hadrodd ym mis Mawrth.

120 Datganiad 2020/21 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wybodaeth i'r Aelodau am Ddatganiad Polisi Tâl 2020/21 y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth a sicrwydd bod y Cyngor yn parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, **PENDERFYNWYD** yr Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl (Atodiad A yr adroddiad)

121 Penodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ei adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i benderfyniad Pwyllgor Penodiadau'r Cyngor ynglŷn â phenodi rhywun i swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant Cafodd yr Aelodau wybod fod y Pwyllgor Penodiadau wedi penderfynu penodi Ms Annabel Lloyd yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant, yn dilyn y cwblhau'r broses recriwtio a dethol ffurfiol.

Dymunodd yr Aelodau'r gorau i'r Cyfarwyddwr presennol, Ann Batley, a fydd yn ymddeol ym mis Ebrill 2020. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo argymhelliad Pwyllgor Penodiadau'r Cyngor i benodi Ms Annabel Lloyd yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant.

122 Newid Aelodaeth

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn gofyn am enwebu Aelod i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Dywedodd bod angen pumed aelod erbyn hyn er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor aelodaeth gyflawn.

Ar ôl trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu **PENDERFYNWYD** penodi Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon i Bwyllgor y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am weddill Blwyddyn 2019-2020 y Cyngor.

123 Cwestiynau gan yr Aelodau

Cyflwynwyd cynnig i atal yr eitem yma, ac i atebion ysgrifenedig i'r cwestiynau yn adroddiad y swyddog i gael eu darparu gan yr Aelodau Cabinet perthnasol.

PENDERFYNWYD atal cwestiynau gan yr Aelodau ac i ymatebion ysgrifenedig gael eu darparu gan yr Aelodau Cabinet perthnasol.

(**Nodwch:** Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James yn dymuno cofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn atal yr eitem hon).

124 Rhybuddion o Gynigion

Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes, G. Caple, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

"Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol diweddar, ymrwymodd pob un o'r prif bleidiau i raglen o wariant cyhoeddus uwch. Roedd hyn fel petai'n arwydd bod degawd o fesurau cyni yn y sector cyhoeddus ar ben, ar ôl toriadau enbyd i wasanaethau cyhoeddus. Er bod cynyddu gwariant yn thema gyffredin, roedd y gwahaniaethau ym mholisiau economaidd, treth a gwariant yn fwy nag a welwyd ers cenhedlaeth.

Yma yng Nghymru, mae gwasanaethau lleol wedi profi toriadau o £1 biliwn ers 2010, ac mae RhCT wedi dioddef gostyngiad o £95 miliwn yng nghyllid refeniw yn yr un cyfnod. Er gwaetha'r toriadau eithafol a gyflwynwyd gan Lywodraeth San Steffan, mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu Awdurdodau yng Nghymru gymaint â phosibl. O ganlyniad, ar y cyfan rydyn ni wedi osgoi'r argyfwng sy'n wynebu rhai Cyngorau yn Lloegr.

Er gwaethaf ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i gefnogi llywodraeth leol, a 2020/21 yn addo'r setliad cyllido gorau ers 12 mlynedd, mae rhagolygon ariannol hirdymor dal yn ansicr ac yn peri heriau. Mae'n debyg bydd Cyngorau yn dal i orfod gwneud penderfyniadau anodd o ran blaenoriaethu gwasanaethau a mynd i'r afael â phwysau ychwanegol o ran cyflogau, cynnydd o ran chwyddiant, a phwysau o ran y galw mawr sy'n effeithio ar wasanaethau craidd fel addysg a gofal cymdeithasol.

Erbyn hyn mae gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan gyfle gwirioneddol i wireddu'i haddewid i ddod â mesurau cyni i ben unwaith ac am byth, wrth i'r Canghellor ddatgan y bydd yn cyflwyno'i gyllideb gyntaf ar 11 Mawrth. Mae Sajid Javid eisoes wedi honni y bydd "biliynau o bunnoedd yn cael ei fuddsoddi ar draws y wlad" ac mae'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn cydnabod y caledi y mae Llywodraeth Leol wedi'i wynebu dros y deng mlynedd ddiwethaf, trwy ddarparu cyllid ychwanegol y gallai Awdurdodau Lleol yng Nghymru elwa ohono wedyn dan Fformiwla Barnett.

Felly mae'r Cyngor hwn yn

- Galw am ddod i ben â mesurau cyni unwaith ac am byth ac am fuddsoddiad ystyrion mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ac yn penderfynu:

- Y bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys ar ran y Cyngor, er mwyn llobio'r Llywodraeth i gyfleu'r penderfyniad uchod."

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cyflwynodd y cynigydd newid i'r Cynnig, i gynnwys y testun ychwanegol sydd wedi'i danlinellu isod:

"Felly mae'r Cyngor hwn yn:

- Galw am ddod i ben â mesurau cyni unwaith ac am byth, adolygu fformiwla Barnett ac am fuddsoddiad ystyrion mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ac yn penderfynu:

- Ysgrifennu at bob AS sy'n cynrychioli'r Sir, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys ar ran y Cyngor, er mwyn llobio'r Llywodraeth i gyfleu'r penderfyniad uchod.

Dyma'r Cynnig wedi'i ddiwygio:

"Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol diweddar, ymrwymodd pob un o'r prif bleidiau i raglen o wariant cyhoeddus uwch. Roedd hyn fel petai'n arwydd bod degawd o fesurau cyni yn y sector cyhoeddus ar ben, ar ôl toriadau enbyd i wasanaethau cyhoeddus. Er bod cynyddu gwariant yn thema gyffredin, roedd y gwahaniaethau ym mholisiau economaidd, treth a gwariant yn fwy nag a welwyd ers cenhedlaeth.

Yma yng Nghymru, mae gwasanaethau lleol wedi profi toriadau o £1 biliwn ers 2010, ac mae RhCT wedi dioddef gostyngiad o £95 miliwn yng nghyllid refeniw yn yr un cyfnod. Er gwaetha'r toriadau eithafol a gyflwynwyd gan Lywodraeth San Steffan, mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu Awdurdodau yng Nghymru gymaint â phosibl. O ganlyniad, ar y cyfan rydyn ni wedi osgoi'r argyfwng sy'n wynebu rhai Cynghorau yn Lloegr.

Er gwaethaf ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i gefnogi llywodraeth leol, a 2020/21 yn addo'r setliad cyllido gorau ers 12 mlynedd, mae rhagolygon ariannol hirdymor dal yn ansicr ac yn peri heriau. Mae'n debyg bydd Cynghorau yn dal i orfod gwneud penderfyniadau anodd o ran blaenoriaethu gwasanaethau a mynd i'r afael â phwysau ychwanegol o ran cyflogau, cynnydd o ran chwyddiant, a phwysau o ran y galw mawr sy'n effeithio ar wasanaethau craidd fel addysg a gofal cymdeithasol.

Erbyn hyn mae gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan gyfle gwirioneddol i

wireddu'i haddewid i ddod â mesurau cyni i ben unwaith ac am byth, wrth i'r Canghellor ddatgan y bydd yn cyflwyno'i gyllideb gyntaf ar 11 Mawrth. Mae Sajid Javid eisoes wedi honni y bydd "biliynau o bunnoedd yn cael ei fuddsoddi ar draws y wlad" ac mae'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn cydnabod y caledi y mae Llywodraeth Leol wedi'i wynebu dros y deng mlynedd ddiwethaf, trwy ddarparu cyllid ychwanegol y gallai Awdurdodau Lleol yng Nghymru elwa ohono wedyn dan Fformiwla Barnett.

Felly mae'r Cyngor hwn yn

- Galw am ddod i ben â mesurau cyni unwaith ac am byth, adolygu fformiwla Barnett, ac am fuddsoddiad ystyrlon mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ac yn penderfynu:

- Ysgrifennu at bob AS sy'n cynrychioli'r Sir, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys ar ran y Cyngor, er mwyn lobio'r Llywodraeth i gyfleu'r penderfyniad uchod.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig yma gyda'r newid dan sylw.

(Nodwch: Roedd Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol J. James a L. Hooper yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn yr hysbysiad o gynnig gyda'r newid.)

B. Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies, P. Jarman, E. Stephens, L. Jones, S. Rees-Owen, M. Weaver, D. Grehan, H. Fychan, E. Griffiths, K. Morgan, J. Davies, J. Cullwick, J. Williams, A. Cox, E. Webster, A. Chapman a S. Evans.

Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad enfawr Cyngor ar Bopeth i ansawdd bywyd trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'n pryderu, felly, wrth glywed am y toriadau i wasanaethau allgymorth yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'u diddymu'n llwyr yng Nghwm-bach, Pont-y-clun, Pont-y-gwaith, Treherbert ac Ystrad. Mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi. Yn anochel, felly, bydd cyngor hollbwysig yn fwy anodd ac yn fwy drud i'w ganfod. Mae hyn ar adeg pan fo Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol a chymorth cyfreithiol ar ei liniau. Yn anffodus mae tri aelod o staff wedi colli eu swyddi.

Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ailddyrrannu adnoddau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at Cyngor ar Bopeth RhCT yn colli £144,000 mewn refeniw. Mae'r Cyngor yn galw am gyfarfod brys gyda chynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth a Llywodraeth Cymru i unioni'r sefyllfa, ac os oes angen, i ganfod ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig yma.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol 10.4.1 Gweithdrefn y Cyngor yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol H. Boggis, J. Edwards, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M.

Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad enfawr Cyngor ar Bopeth i ansawdd bywyd trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'n pryderu, felly, wrth glywed am y toriadau i wasanaethau allgymorth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'u diddymu'n llwyr yng Nghwm-bach, Pont-y-clun, Pont-y-gwaith, Treherbert ac Ystrad. Mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi. Yn anochel, felly, bydd cyngor hollbwysig yn fwy anodd ac yn fwy drud i'w ganfod. Mae hyn ar adeg pan fo Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol a chymorth cyfreithiol ar ei liniau. Yn anffodus mae tri aelod o staff wedi colli eu swyddi.

Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ailddyrranu adnoddau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at Cyngor ar Bopeth RhCT yn colli £144,000 mewn refeniw.

{Ychwanegu: Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyllid sylweddol y mae'r Awdurdod hwn eisoes yn ei ddarparu, sef cyfanswm o £447,000 y flwyddyn, sydd wedi'i warchod dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu'r adnoddau i Cyngor ar Bopeth RhCT gynnig cymorth i drigolion sydd wedi'u heffeithio gan heriau Credyd Cynhwysol ac effaith mesurau cyni ar yr ardal leol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cymorth ychwanegol i Cyngor ar Bopeth RhCT er mwyn i'r gwasanaeth beidio â chael ei effeithio'n andwyol gan y dyraniad cyllid newydd.}

Mae'r Cyngor yn galw [Dileu: am gyfarfod brys gyda chynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth a] ar Lywodraeth Cymru i unioni'r sefyllfa, ac os oes angen, i ganfod ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig yma.

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad enfawr Cyngor ar Bopeth i ansawdd bywyd trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'n pryderu, felly, wrth glywed am y toriadau i wasanaethau allgymorth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'u diddymu'n llwyr yng Nghwm-bach, Pont-y-clun, Pont-y-gwaith, Treherbert ac Ystrad. Mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi. Yn anochel, felly, bydd cyngor hollbwysig yn fwy anodd ac yn fwy drud i'w ganfod. Mae hyn ar adeg pan fo Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol a chymorth cyfreithiol ar ei liniau. Yn anffodus mae tri aelod o staff wedi colli eu swyddi.

Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ailddyrranu adnoddau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at Cyngor ar Bopeth RhCT yn colli £144,000 mewn refeniw.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyllid sylweddol y mae'r Awdurdod hwn eisoes yn ei ddarparu, sef cyfanswm o £447,000 y flwyddyn, sydd wedi'i warchod dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu'r adnoddau i Cyngor ar Bopeth RhCT gynnig cymorth i drigolion sydd wedi'u heffeithio gan heriau Credyd Cynhwysol ac effaith mesurau cyni ar yr ardal leol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cymorth ychwanegol i Cyngor ar Bopeth RhCT er mwyn i'r gwasanaeth beidio â chael ei effeithio'n andwyol gan y dyraniad cyllid newydd.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i unioni'r sefyllfa, ac os oes angen, i ganfod ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig yma.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r diwygiad yn dilyn newid pellach i'r diwygiad. Yn unol â Rheol Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cyflwynodd cynigydd y diwygiad i'r Cynnig newid i'r Cynnig wedi'i ddiwygio, i gynnwys y testun sydd wedi'i danlinellu isod:

"Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth i ystyried cymorth ychwanegol i Cyngor ar Bopeth RhCT er mwyn i'r gwasanaeth beidio â chael ei effeithio'n andwyol gan y dyraniad cyllid newydd."

Byddai'r Rhybudd o Gynnig wedi'i ddiwygio (i gynnwys y newid) yn darllen fel y ganlyn:

"Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad enfawr Cyngor ar Bopeth i ansawdd bywyd trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'n pryderu, felly, wrth glywed am y toriadau i wasanaethau allgymorth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'u diddymu'n llwyr yng Nghwm-bach, Pont-y-clun, Pont-y-gwaith, Treherbert ac Ystrad. Mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi. Yn anochel, felly, bydd cyngor hollbwysig yn fwy anodd ac yn fwy drud i'w ganfod. Mae hyn ar adeg pan fo Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol a chymorth cyfreithiol ar ei liniau. Yn anffodus mae tri aelod o staff wedi colli eu swyddi.

Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ailddyrrannu adnoddau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at Cyngor ar Bopeth RhCT yn colli £144,000 mewn refeniw.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyllid sylweddol y mae'r Awdurdod hwn eisoes yn ei ddarparu, sef cyfanswm o £447,000 y flwyddyn, sydd wedi'i warchod dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu'r adnoddau i Cyngor ar Bopeth RhCT gynnig cymorth i drigolion sydd wedi'u heffeithio gan heriau Credyd Cynhwysol ac effaith mesurau cyni ar yr ardal leol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth i ystyried cymorth ychwanegol i Cyngor ar Bopeth RhCT er mwyn i'r gwasanaeth beidio â chael ei effeithio'n andwyol gan y dyraniad cyllid newydd.

Mae'r Cyngor yn galw ar Llywodraeth Cymru i unioni'r sefyllfa, ac os oes angen, i ganfod ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig yma.

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig.

(**Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens yn dymuno cofnodi ei bod hi wedi ymatal rhag pleidleisio)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm

**Y Cyngorydd S Powderhill
Cadeirydd**

